Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Cyhoeddi'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a chyhoeddi cynlluniau i roi ar waith Fenter y Canolfannau Teithio Cynaliadwy** |
| **Dyddiad:** | **29 Mawrth 2010** |
| **Gan:** | **Ieuan Wyn Jones, Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth** |

Ceir yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol ein cynllun pum mlynedd ar gyfer datblygu rhwydwaith trafnidiaeth modern - un sy'n cefnogi'r gwaith o adnewyddu ein heconomi, sy'n cefnogi creu cymdeithas fwy cynhwysol ac un sy'n ein helpu ni i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.  Nodir ynddo sut yr awn ati i gyflawni ein hymrwymiadau yn y ddogfen Cymru'n Un a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Un o'r prif faterion sy'n cael sylw yn y Cynllun yw sut yr awn ati i wella'r gwaith integreiddio, ac yn ganolog i hyn fydd ymestyn llwyddiannau ein menter gyntaf i hybu teithio cynaliadwy yng Nghaerdydd ar draws Cymru gyfan.

Heddiw, rwyf yn cyhoeddi'r cam nesaf yn ein rhaglen ar gyfer Canolfannau Teithio Cynaliadwy.  Y fenter nesaf i'w datblygu yw Ardal Teithio Cynaliadwy Môn a Menai sy'n cynnwys prosiectau seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn ninas Bangor ac ardal y Fenai, prosiectau seilwaith arfaethedig ar gerdded a beicio ynghyd â phrosiectau yn ymwneud â dulliau doethach o deithio megis cynlluniau teithio ar gyfer prif gyflogwyr, gwelliannau i'r gwasanaeth bysiau a'r prosiect Beic Môn a Menai. Codwyd datganiad i'r wasg heddiw, hefo copi ynghlwm

Rwyf hefyd yn cyhoeddi'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus y llynedd.  Roedd yn dda gennyf weld dros 370 o ymatebion yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau gan unigolion a sefydliadau. Mae hyn yn adlewyrchu pa mor bwysig yw ein cynlluniau i wella trafnidiaeth ledled Cymru.